**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD O DAN REOL SEFYDLOG 9.9**

**MAI 2001 I EBRILL 2002**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgareddau o fis Mai 2001 i Ebrill 2002. Gellir gweld copïau o'n hadroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiad y cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (1)

## 2 Aelodaeth

2.1 Yr aelodau cyfredol yw: Gareth Jones (Cadeirydd), Jane Davidson (Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes), Lorraine Barrett, Mick Bates, Cynog Dafis, Janice Gregory, Jonathan Morgan, Helen Mary Jones, Huw Lewis ac Alun Pugh.

2.2 Bu nifer o newidiadau i'r Aelodaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad:
- Ymunodd Mick Bates yn lle Eleanor Burnham ar 16 Hydref 2001;
- Ymunodd Helen Mary Jones yn lle Pauline Jarman ar 21 Mawrth 2002; a
- Gwnaed Gareth Jones yn Gadeirydd yn lle Cynog Dafis ar 21 Mawrth 2002.

## 3 Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau

3.3 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Addysg a dysgu gydol oes yw'r portffolio hwnnw ac mae'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, y cwricwlwm cenedlaethol a chymwysterau, pob agwedd ar weinyddu a threfnu ysgolion, addysg uwch ac addysg bellach, polisïau cyflogaeth gyda'r pwyslais ar yr ochr gyflenwi - gan gynnwys y Fargen Newydd - a gwaith y gwasanaeth cyflogi, y gwasanaethau gyrfaoedd a hyfforddiant sy'n ymwneud â gwaith.

3.4 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn rheol sefydlog 9.

## 4 Blaenoriaethau

4.1 Rydym wedi ceisio datblygu ffordd strategol o weithio. Rydym wedi canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol yn ystod cyfnod yr adroddiad. Fe wnaethom gwblhau adolygiad o'r polisi ar Ddarparu Llefydd mewn Ysgolion ym mis Gorffennaf 2001 ac ar Addysg Uwch ym mis Ionawr 2002 ac rydym ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r Iaith Gymraeg Mewn Addysg.

4.2 Rydym wedi ymrwymo i wneud ein gwaith yn fwy hygyrch i bobl Cymru. I'r perwyl hwn, ym mis Ionawr 2002, cynhaliwyd cyfarfod pwyllgor yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth a hefyd fe wnaethom lansio ein hadroddiad ar addysg Uwch yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd.

## 5 Gwaith a’r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

5.1 Yn ystod cyfnod yr adroddiad fe wnaethom gwrdd 18 o weithiau. Y prif bethau y gwnaethom eu cyflawni oedd:

## 6 Datblygu Polisi – *rheol sefydlog 9.7 (i)*

### Adolygiad o’r Polisi ar Ddarparu Llefydd mewn Ysgolion

6.1 Fe wnaethom etifeddu’r adolygiad hwn gan y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar sydd bellach wedi’i ddiddymu. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ac fe’i cyflwynwyd gerbron y Cynulliad ar 10 Gorffennaf 2001 (2).

6.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn argymhellion y pwyllgor ac wedi sefydlu gweithgor ar y cyd gydag Archwiliad Dosbarth a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW), i gynllunio methodoleg i fesur faint o le sydd mewn ysgol.

### Adolygiad o’r Polisi ar Addysg Uwch

6.3 Fe wnaethom gwblhau ein hadolygiad o’n polisi ar addysg uwch. Dechreuwyd yr adolygiad polisi hwn yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf (Tachwedd 2000) a cafodd ei gwblhau ym mis Ionawr 2002. Lansiwyd yr adroddiad yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru ar 15 Ionawr (3). Yn yr adroddiad, nodir ein gweledigaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a’r argymhellion a wnaed i’r Gweinidog. Bu’r adolygiad yn ystyried materion cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol, ynghyd ag amcanion dysgu, ymchwil ac economaidd o fewn y sector.

6.4 Fe wnaethom ymweld â Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, lle cynhaliwyd cyfarfod pwyllgor ffurfiol gydag aelodau Pwyllgor Addysg Bellach ac Uwch, Hyfforddiant a Chyflogaeth Gogledd Iwerddon.

6.5 Mewn ymateb i’r adolygiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru – *Addysg Uwch a’r Wlad sy’n Dysgu.* Mae’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi nodi nifer o gynigion pwysig yn seiliedig ar yr adroddiad ac mae wedi ymrwymo i roi gwybod i’r pwyllgor am unrhyw gynnydd.

### Adolygiad o’r Polisi ar yr Iaith Gymraeg mewn Addysg

6.6 Rydym yn y broses o gynnal adolygiad o’r Iaith Gymraeg mewn addysg. Mae’r Pwyllgor Diwylliant yn cynnal adolygiad cyffredinol o’r polisi ar yr Iaith Gymraeg a bydd y pwyllgor hwn yn darparu’r adran ar addysg. Rydym wedi apwyntio Mrs Catrin Redknap fel Ymgynghorydd arbenigol i gynorthwyo'r pwyllgor.

6.7 Byddwn yn ceisio diffinio gwerth dwyieithrwydd mewn addysg i weledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer meithrin hunaniaeth unigryw ac amrywiol i Gymru. Bydd y Pwyllgor yn awgrymu strategaeth i helpu i wireddu'r weledigaeth hon.

6.8 Fe wnaethom hefyd gyfrannu at ddatblygiadau polisi allweddol sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes (4).

## 7 Adolygiad o Wariant a Gweinyddiaeth – *rheol sefydlog 9.7 (ii)*

7.1 Cyflwynodd y Gweinidog adroddiad misol i'r pwyllgor ar bolisïau, ymgynghoriadau, cyllideb a materion eraill. Roedd y Cadeirydd a'r Gweinidog yn cytuno ar y materion oedd i'w cynnwys ym mhob adroddiad o flaen llaw. Byddai'r pwyllgor yn holi'r Gweinidog am ei hadroddiad, yn ôl yr angen, gan ofyn am esboniadau pellach ar rai materion.

## 8 Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad – *rheol sefydlog 9.7(iii)*

8.1 Fe wnaethom holi Cyngor Cenedlaethol ELWa ar ei strategaeth gorfforaethol ddrafft a'i hadolygiad ariannu, ar ôl iddo gael ei sefydlu yn gynharach yn y flwyddyn.

8.2 Ymddangosodd ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) gerbron y pwyllgor i drafod ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2002/03-2004/05.

8.3 Cafwyd cyflwyniad gan Estyn ar ei adroddiad blynyddol ar flwyddyn academaidd 2000 - 2001. Yn dilyn ei chyflwyniad, holwyd y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant gan y pwyllgor am ganfyddiadau'r adroddiad a'i goblygiadau polisi. Nid yw Estyn yn gorff sy'n cael ei noddi gan y Cynulliad ond mae'n gweithio'n agos gyda'r Cynulliad i ddarparu tystiolaeth a chyngor, er mwyn datblygu a monitro polisïau addysgol. Mae diddordeb byw gennym felly yng ngwaith Estyn.

8.4 Ym mis Ebrill cyflwynodd y Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2002-2005 a'i gynllun gweithredol 1 Ebrill 2002 - 31 Mawrth 2003 i'r pwyllgor ac yn rhoi adroddiad ar yr hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 9 Deddfwriaeth – *rheol sefydlog 9.8 (i)*

9.1 Fe wnaethom ystyried a rhoi adroddiad i'r Cynulliad ar Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001, Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2002 a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried rhestr o is-ddeddfwriaeth berthnasol sydd ar ddod. Mae'r rhestr yn cwmpasu'r cyfnod o'r presennol tan ddiwedd Tymor yr Haf 2002 (5).

9.2 Cawsom gyfle hefyd i drafod y Mesur Addysg, sydd ar fin cael ei drafod yn Nhy'r Arglwyddi, ar ddau achlysur yn ystod cyfnod yr adroddiad. Ymunodd

yr Is-ysgrifennydd Gwladol (Don Touhig AS) â Gweinidog y Cynulliad yn un o'r sesiynau i esbonio darpariaethau'r Mesur a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Roedd hyn yn adeiladol iawn ac roedd y pwyllgor yn gobeithio cael cyfle pellach i drafod â'u cyd-weithwyr seneddol.

## 10 Cyllideb – *rheol sefydlog 9.8 (ii)*

10.1 Lluniwyd blaenoriaethau'r gyllideb yn yr haf, ac fe wnaethom gynnig sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref (6).

## 11 Cwynion – *rheol sefydlog 9.8 (iii)*

11.1 Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod cyfnod yr adroddiad.

## 12 Penodiadau Cyhoeddus – *rheol sefydlog 9.8 (iv)*

12.1 Ymgynghorwyd â'n henwebeion (7) ar gyfer penodiadau cyhoeddus ar nifer o benodiadau (8) i gyrff cyhoeddus yn ystod cyfnod yr adroddiad.

## 13 Blaenraglen Waith

13.1 Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi cynhyrchu blaenraglen waith strategol ar gyfer 2002-03 (Atodiad 1)

(1) Gweler tudalennau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y cyfeiriad canlynol http://www.cymru.gov.uk/keypubassemedlearning/index.htm
(2) Gweler http://www.cymru.gov.uk/keypubassemedlearning/content/policyreviews-w.htm i weld copiau o'r adroddiad
(3) Gweler http://www.cymru.gov.uk/keypubassemedlearning/content/policyreviews-w.htm i weld copiau o'r adroddiad (ISBN 0 7504 2790 6)
(4) Lleihau'r Baich Biwrocrataidd ar Ysgolion, Strategaeth/Sgiliau Datblygu Economaidd Cenedlaethol, rhaglen GEST 2002-03, Ymestyn Hawliau (Cyfarwyddyd ac Arweiniad), Addysg Camddefnyddion Sylweddau a Pholisi Ysgolion Gwledig a Bychan.
(5) ELL 05-02(p7) Mawrth 6 gweler www.cymru.gov.uk
(6) Gellir gweld copiau o'n hymatebion ar ein tudalennau cynllunio cyllideb a chynllunio strategol www.cymru.gov.uk
(7) Ein henwebeion cyfredol yw Gareth Jones, Jane Davison a Lorraine Barret. Yn ystod cyfnod yr adroddiad roedd Cynog Dafis yn bresennol yn hytrach na Gareth Jones
(8) Cyngor Cyllido Addysg Uwch (Cadeirydd ac Aelod), ACCAC (Aelod), Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Aelod) a Gweithgor Ymgynghorol y Fargen Newydd yng Nghymru (Aelodau).

**ATODIAD 1**

## Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## BLAEN RAGLEN WAITH STRATEGOL
## MAI 2002-MAI 2003

### Cyflwyniad

1. Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad Cenedlaethol yw'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Amlinellir dyletswyddau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog a geir yn **Atodiad A.**

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl i gwmpasu cyfnod o 12 mis fan leiaf. Cytunodd Panel y Cadeiryddion y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn strategol a chwmpasu cyfnod o 18 –24 mis, wedi'u hategu gan raglenni gwaith mwy manwl i gwmpasu cyfnod o dri mis. Fodd bynnag, mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Pwyllgor rhwng Mai 2002 ac etholiadau nesaf y Cynulliad a gynhelir ym Mai 2003. Bydd rhaglen waith fanwl ar gyfer y cyfnod Mai 2002 i Orffennaf 2002 ar gael yn ddiweddarach yn ystod y tymor hwn.

### Cylch gwaith

3. Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae portffolio'r Gweinidog yn ymwneud ag addysg a dysgu gydol oes, sy'n cwmpasu'r cwricwlwm cenedlaethol a chymwysterau, pob agwedd ar weinyddiaeth a threfniadaeth ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch, polisi cyflogaeth gweithredol, gan gynnwys y Fargen Newydd a gwaith y gwasanaeth cyflogi, y gwasanaethau gyrfaoedd a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae hyn yn gorgyffwrdd â chylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc.

### Nodau

4. Nod y Pwyllgor yw hyrwyddo a hybu'r gwaith o wella ansawdd addysg yng Nghymru yn barhaus, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bawb yng Nghymru gael addysg o ansawdd uchel ac addysg gydol oes.

### Blaenoriaethau

5. Gan fod cylch gwaith mor eang gan y pwyllgor, mae wedi datblygu ymagwedd strategol at ei waith. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod fel a ganlyn:

- *Datblygu polisïau (Rheol Sefydlog 9.7(i))* – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ymwneud â datblygu polisïau y gall effeithio fwyaf arnynt, a bydd yn ategu ac yn ceisio ategu'r polisïau y mae'r Gweinidog wrthi'n eu datblygu yn hytrach na'u dyblygu. Yn ystod y

flwyddyn i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu'r meysydd polisi canlynol:

- Y Gymraeg mewn Addysg
- Ysgol y Dyfodol

- *Craffu ar y Gweinidog* (Rheol Sefydlog 9.7(ii)) – bydd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio bob mis. Unwaith y flwyddyn bydd y Pwyllgor yn craffu ar berfformiad y Gweinidog a'i gymharu erbyn targedau, ond efallai hefyd y bydd yn cynnal sesiynau craffu thematig o bryd i'w gilydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu craffu ar y modd y darperir rhaglen Y Wlad Sy'n Dysgu.

- *Craffu ar gyrff a noddir (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))* – bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn blynyddol yn ystod tymhorau'r gwanwyn/haf pan fydd yn craffu ar waith ELWa – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ELWa – Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ACCAC ac Estyn ac yn gwneud sylwadau ar eu rhaglenni gwaith at y dyfodol.

- *Eitemau eraill (Rheol Sefydlog 9.8)* – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

- *deddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* (Rheol Sefydlog 9.8(i) a 22) – bob tymor bydd y Gweinidog yn amlinellu'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn i'r Pwyllgor allu nodi'r meysydd yr hoffai ddarparu cyngor arnynt. Ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried araith y Frenhines, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft a gyfeiriwyd ato yn y Cyfarfod Llawn. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes [er y byddai'n gofyn i bobl beidio ag ymgynghori ag ef ynghylch y meysydd hynny nad oedd wedi mynegi diddordeb ynddynt]:

- *cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))* – Bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb yn ystod tymor yr haf a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

- *cwynion* (Rheol Sefydlog 9.8(iii) a 21*)* - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato;

- *penodiadau cyhoeddus* (Rheol Sefydlog 9.8(iv) ac 20) – bydd dau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

- *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys pwyllgrau eraill [ond byddai'n gofyn i

Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigon sy’n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor].

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**Ionawr 2002**

**<u>ATODIAD A</u>**
**CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGORAU PWNC**

1. Mae rheolau sefydlog 9.7 a 9.8 yn amlinellu cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc.

"9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc yn

(i) cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad drostynt;

(ii) adolygu'r gwariant a'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r broses o'u rhoi ar waith; ac

(iii) adolygu'r modd y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn y meysydd hynny.

"9.8 O fewn eu meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd yn

(i) cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;

(ii) darparu cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;

(iii) cyflawni ei sywddogaeth o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);

(iv) cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennwyd ar ei gyfer o dan God Ymarfer y Drefn Penodiadau Cyhoeddus a wnaed gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac

(iv) ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad o fewn ei feysydd".